OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 3364 (Cy.261)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005

*Wedi'u gwneud - - 6 Rhagfyr 2005*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliadau 1(2), (3) a (4)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo dan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o, a pharagraffau 1, 3 i 8, 11, 12 a 14 i 16 o Atodlen 11 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac yn dilyn ymgynghori â'r Cygor ar Dribiwnlysoedd fel sy'n ofynnol o dan adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1988 p.41. *Gweler* O.S. 1999/672. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o, a pharagraffau 1, 3 i 8, 11, 12, 14 i 16 o Atodlen 11 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, cyn belled ag y gellir eu hymarfer mewn perthynas â Chymru, yn cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999.

(**2**) 1992 p.53.